



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Rhydygors
Heol Llansteffan
Tre Ioan
Sir Gaerfyrddin
SA31 3NQ**

Dyddiad yr arolygiad: Medi 2014

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/12/2014

Cyd-destun

Mae Ysgol Rhydygors yn ysgol arbennig breswyl a dydd awdurdod lleol, a gynhelir gan Gyngor Sir Gâr. Mae'r ysgol yn darparu addysg i hyd at 54 o ddisgyblion rhwng 8 ac 16 oed. Ar hyn o bryd, mae 38 o ddisgyblion yn yr ysgol, ac mae ychydig dros hanner ohonynt yn mynychu'r ysgol ar sail breswyl.

Mae gan bob un o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ar gyfer anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Yn ogystal, mae gan lawer ohonynt anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys awtistiaeth ac anawsterau dysgu.

Mae'r ysgol wedi ei threfnu'n 10 dosbarth ar draws y cyfnodau allweddol. Caiff disgyblion eu haddysgu mewn dosbarthiadau sy'n cael eu penderfynu'n fras yn ôl eu hangen, eu lefel gallu a'u hoedran. Nid yw'n briodol cymharu'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn yr ysgol â'r cyfartaleddau cenedlaethol, na dadansoddi tueddiadau perfformiad grwpiau dros amser, oherwydd natur anghenion dysgu'r disgyblion.

Caiff lleiafrif o ddisgyblion eu lleoli yn Rhydygors gan awdurdodau cyfagos. Daw ychydig iawn o ddisgyblion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Ychydig o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf yr aelwyd. Ar hyn o bryd, mae ychydig dros 30% o ddisgyblion dan ofal yr awdurdod lleol. Mae 59% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru-gyfan ar gyfer ysgolion arbennig, sef 43%.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Medi 2008 ac, ar y pryd, roedd yr ysgol yn ddarpariaeth breswyl i ddisgyblion yng nghyfnodau allweddol 3 a 4. Erbyn hyn, mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion dydd a disgyblion o gyfnod allweddol 2 hefyd.

Er 2013, bu dau bennaeth dros dro, a phenodwyd y pennaeth dros dro mwyaf diweddar ym Medi 2014.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Digonol
Rhagolygon gwella'r ysgol	Anfoddhaol

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- dros amser, yn sgil cymorth gan staff, mae disgyblion yn magu hyder ac mae llawer ohonynt yn ymfalchïo yn eu gwaith a'u cyflawniadau;
- mae mwyafrif y disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn gwneud cynnydd da mewn mathemateg a gwyddoniaeth, ac mae tua hanner y disgyblion yn gwneud cynnydd yn eu medrau llythrennedd;
- mae'r cwricwlwm yn eang ac yn gytbwys;
- lle mae'n briodol, mae'r ysgol yn cofrestru disgyblion i sefyll arholiadau TGAU;
- ni fu unrhyw waharddiadau parhaol yn yr ysgol dros y pedair blynedd diwethaf; ac
- mae llawer o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, a dywed y rhan fwyaf ohonynt fod yr ysgol yn delio'n dda ag achosion o fwlio.

Fodd bynnag:

- mae safonau cyflawniad yng nghyfnod allweddol 4 wedi amrywio dros y tair blynedd diwethaf;
- nid yw disgyblion yn cynhyrchu digon o waith ysgrifenedig;
- mae cyfraddau presenoldeb wedi disgyn yn ystod y ddwy flynedd diwethaf;
- bu cynnydd yn nifer y gwaharddiadau am gyfnod penodol; ac
- nid yw'r dulliau a'r deunyddiau sy'n cael eu defnyddio mewn gwersi yn briodol ar gyfer anghenion dysgu pob un o'r disgyblion bob tro.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn anfoddhaol oherwydd:

- dros y deunaw mis diwethaf, bu newidiadau sylweddol i arweinyddiaeth yr ysgol sydd wedi arwain at gyfnod o ansefydlogrwydd;
- bu cynnydd yr ysgol o ran cyflawni ei blaenoriaethau strategol yn rhy araf;
- nid oes gan yr ysgol weithdrefnau hunanarfarnu sefydledig;
- tan yn ddiweddar iawn, ni fu gan yr ysgol gymorth na her gan gorff llywodraethol llawn weithredol;
- nid yw'r ysgol wedi rhoi'r unig argymhelliad o arolygiad 2008 ar waith yn llawn; ac
- nid yw'r ysgol yn defnyddio amser ac arbenigedd staff yn ddigon da.

Fodd bynnag:

- yn ddiweddar, mae'r tîm arweinyddiaeth wedi sefydlu systemau rheoli data ysgol-gyfan ac, erbyn hyn, mae'n monitro cynnydd disgyblion unigol i olrhain a dadansoddi perfformiad disgyblion a dwyn staff i gyfrif; ac
- mae cadeirydd newydd y llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda, mae'n meddu ar weledigaeth glir, ac mae'n cael cymorth gan gyflenwad llawn o lywodraethwyr.

Argymhellion

- A1 Gwella ansawdd a chyfanswm gwaith disgyblion yn gyffredinol
- A2 Gwella lefelau presenoldeb a lleihau lefel y gwaharddiadau am gyfnod penodol
- A3 Sicrhau bod pob gwern yn bodloni anghenion dysgu unigol disgyblion
- A4 Rhoi gweithdrefnau marcio ac adborth cyson ar waith
- A5 Sefydlu tîm arweinyddiaeth sefydlog er mwyn i arweinwyr gael eu dwyn i gyfrif am eu cyfrifoldebau cytûn
- A6 Monitro ac arfarnu blaenoriaethau gwella trwy ymgorffori'r gweithdrefnau hunanarfarnu a sefydlwyd yn ddiweddar
- A7 Defnyddio staff i fanteisio i'r eithaf ar eu hamser a'u harbenigedd

Beth sy'n digwydd nesaf?

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar Ysgol Rhydygors. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Digonol

Safonau: Digonol

Mae pob un o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Rhydygors yn cael trafferth rheoli eu hymddygiad ac wedi wynebu heriau yn eu hysgolion blaenorol. Mae gan y mwyafrif o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig eraill, gan gynnwys awtistiaeth ac anawsterau dysgu penodol a chyffredinol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael trafferth cyd-dynnu'n dda ag eraill ac ymddiried mewn oedolion. Dros amser, yn sgil cymorth gan staff, mae disgyblion yn magu hyder ac mae llawer ohonynt yn ymfalchïo yn eu gwaith a'u cyflawniadau.

Mae safonau cyflawniad yng nghyfnod allweddol 4 wedi amrywio dros y tair blynedd diwethaf. Ar lefel mynediad, bu dirywiad yn y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni mewn mathemateg, Cymraeg a gwyddoniaeth. Fodd bynnag, bu gwelliant mewn Saesneg ac yn y dyniaethau. Mewn TGAU, bu gwelliant mewn Saesneg, mathemateg a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Fodd bynnag, mae safonau mewn pynciau eraill wedi disgyn. Yn ogystal â chymwysterau lefel mynediad a TGAU, mae disgyblion wedi ennill cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol mewn beicio mynydd, iechyd a diogelwch, a chynnal a chadw cerbydau modur. Enillodd llawer ohonynt wobwr am eu gwaith ar yr amgylchedd. Enillodd y mwyafrif o'r disgyblion a astudiodd BTEC mewn peirianeg y cymhwyster.

Mewn llyfrau yng nghyfnod allweddol 4, yn gyffredinol, nid oes llawer o dystiolaeth o waith disgyblion. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o'r gwaith a welwyd yr un fath ar gyfer pob disgybl. Felly, nid yw'n amlwg pa waith a gwblhawyd gan ddisgyblion yn annibynnol. Yn ogystal, mewn llawer o achosion, mae gwaith yn anghyflawn.

Dim ond ychydig o ddisgyblion hŷn sy'n creu darnau ysgrifenedig disgrifiadol sy'n dangos trefniadaeth dda a strwythur priodol ar gyfer paragraffau, ac yn defnyddio geirfa sy'n ennyn diddordeb y darllenydd.

Mae mwyafrif y disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn gwneud cynnydd da mewn mathemateg a gwyddoniaeth, ac mae tua hanner y disgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau llythrennedd. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau darllen. O gael eu hannog, mae disgyblion yn dangos gallu da i alw i gof a dealltwriaeth dda yn eu gwersi Ffrangeg.

Ar sail y gwaith cyfyngedig sydd ar gael ac o linell sylfaen isel iawn, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd priodol mewn rhifedd. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid ydynt yn hyderus wrth ddatblygu eu medrau llfaredd.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd gofal wrth gyflwyno eu gwaith ac yn hyderus wrth ymateb i gwestiynau uniongyrchol. Mewn TGCh a chelf, er enghraifft, mae disgyblion yn frwdfrydig, yn gofyn cwestiynau ac yn defnyddio terminoleg arbenigol yn dda. Maent yn defnyddio cymwysiadau cyfrifiadurol yn greadigol. Mae codau sganio wedi eu hatodi i'w gwaith ac mae hyn yn galluogi eraill i weld animeiddiad o'r

disgybl yn disgrifio'r hyn y mae wedi ei gyflawni. Mae hyn yn helpu i ddatblygu hyder disgyblion mewn llefaredd a defnyddio'r technolegau sydd ar gael. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn y pynciau hyn. Fodd bynnag, nid yw defnydd disgyblion o TGCh ar draws pynciau wedi ei datblygu'n ddigonol.

Yn ogystal â thargedau cynlluniau addysg unigol, mae'r rhan fwyaf o lyfrau gwaith yn cynnwys targedau ar gyfer rhifedd a llythrennedd hefyd. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn mesur cynnydd disgyblion yn erbyn y targedau hyn yn ddigon da.

Mewn mathemateg, mae bron pob disgybl ar draws y cyfnodau allweddol yn cwblhau'r tasgau sy'n cael eu gosod yn gywir. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn defnyddio ac yn datblygu eu medrau llythrennedd ar draws ystod lawn y pynciau.

Caiff disgyblion hyn gyfle i fynychu cyrsiau coleg a chânt eu cynorthwyo'n dda. O ganlyniad, mae cyfran y disgyblion nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi lleihau'n sylweddol o 58% yn 2012 i 16% yn 2014.

Mae medrau disgyblion o ran datblygu eu defnydd o'r Gymraeg yn briodol. Er enghraifft, mewn gwersi Cymraeg Blwyddyn 8, gall pob disgybl gyfieithu brawddegau cadarnhaol a negyddol. Mae disgyblion hyn yn defnyddio'r amser amodol wrth ddisgrifio'r hyn a fyddai'n digwydd yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg mewn meysydd dysgu eraill, nac yn ehangach oddi mewn i'r ysgol.

Tan yn ddiweddar, nid oedd disgyblion preswyl yn cael eu hystyried yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Felly, nid yw'n bosibl cymharu safonau'r grŵp hwn o ddysgwyr â disgyblion eraill.

Lles: Digonol

Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a dywed y rhan fwyaf ohonynt fod yn ysgol yn delio'n dda ag unrhyw achosion o fwlio.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o fyw'n iach ac maent yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach. Mae mwyafrif y disgyblion yn gwybod sut i wella eu ffitrwydd ac mae bron pob un ohonynt yn cymryd rhan mewn ymarfer corff rheolaidd.

At ei gilydd, mae presenoldeb yn yr ysgol wedi disgyn yn ystod y ddwy flynedd diwethaf i 87%, ac mae lefel yr absenoldebau anawdurdodedig wedi cynyddu. Ni fu unrhyw waharddiadau parhaol yn yr ysgol yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, bu cynnydd yn nifer y gwaharddiadau am gyfnod penodol.

Mae pob dosbarth wedi ethol disgybl i'r cyngor ysgol. Mae'r cyngor yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn trafod materion sydd o bwys i'r disgyblion. Er enghraifft, gwnaeth y cyngor gais llwyddiannus i Flwyddyn 11 gael tei ysgol gwahanol er mwyn gwahaniaethu rhyngddyn nhw â'r disgyblion eraill. Yn eu rôl fel cynghorwyr ysgol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau mewn gwranddo ar farn pobl eraill ac ysgwyddo cyfrifoldebau. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth well o bwysigrwydd ymgynghori a gwneud penderfyniadau ar y cyd.

Mae disgyblion cyfnod allweddol 4, yn benodol, yn datblygu annibyniaeth yn eu dysgu. Er enghraifft, mewn TGCh maent yn defnyddio medrau ymchwilio i gynllunio ymweliadau, ac mae'r rhain yn cynnwys defnyddio amserlenni trenau i bennu amseroedd teithio a defnyddio bwydlenni a deunyddiau eraill i gyfrifo costau. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddisgyblion sy'n asesu eu perfformiad eu hunain yn ddigon da.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol a bywyd yn dda. Maent yn trefnu digwyddiadau i godi arian ac yn gwahodd aelodau o'r gymuned leol i foreau coffi. Lle y bo'n briodol, mae pob disgybl yn manteisio ar glybiau chwaraeon lleol gyda'r nos lle maent yn chwarae golff, pêl-droed a rygbi. Maent yn cymryd rhan ym mhrosiect Phoenix â'r Gwasanaeth Tân Lleol, er enghraifft. Mae hyn yn helpu i feithrin perthynas dda rhwng y disgyblion a'r gwasanaethau brys.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Digonol
--	----------------

Profiadau dysgu: Digonol

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys.

Un o gryfderau'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2 yw darpariaeth dysgu yn yr awyr agored. Mae dyddiau Mercher ("Wellie Wednesday") yn galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau cymdeithasol, llythrennedd a rhifedd yn y gymuned ehangach; er enghraifft, maent yn ymweld â pharciau lleol ac yn datblygu'r hyn y maent wedi ei ddysgu yn yr ystafell ddosbarth.

Mae'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 3 yn adeiladu'n briodol ar brofiadau yng nghyfnod allweddol 2. Yng nghyfnod allweddol 4, caiff disgyblion gyfle i ennill cymwysterau perthnasol mewn ystod o bynciau. Mae'r rhain yn cynnwys cyrsiau TGAU mewn Cymraeg, Saesneg, gwyddoniaeth a mathemateg.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau effeithiol â cholegau lleol ac mae hyn yn galluogi disgyblion i ddilyn cwricwlwm mwy personol, er enghraifft trwy astudio BTEC mewn peirianeg. Yn ogystal â'r cwricwlwm ffurfiol, caiff disgyblion gyfle i gyfranogi yng Ngwobr Dug Caeredin hefyd. Mae pob disgybl ym Mlwyddyn 11 yn cymryd rhan mewn profiad gwaith ac, yn ddiweddar, mae disgyblion wedi gweithio mewn theatr, busnesau lleol a pharc gwledig.

Mae ystod briodol o glybiau yn yr ysgol sy'n cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion, gan gynnwys pêl-fasged, pêl-droed a chlwb TGCh.

Mae'r ysgol wedi addasu ei chwricwlwm yn dda i ymateb i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Mae gan bob disgyblion dargedau llythrennedd a rhifedd priodol ar gyfer pob pwnc. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi archwilio'r defnydd o TGCh ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys cymhwysedd staff. Mae cynlluniau datblygedig iawn yn yr arfaeth i weithredu cynllunio ar gyfer TGCh ar draws y cwricwlwm.

Caiff pob disgybl ei (h)addysgu ar gwrs Cymraeg priodol. Fodd bynnag, nid yw cyfleoedd i ddysgu am ddiwylliant Cymru ar draws y cwricwlwm wedi eu datblygu'n ddigonol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy yn effeithiol trwy annog disgyblion i ailgylchu a thrwy ymweld ag eco-bentref lleol i ddysgu am adeiladu a ffynonellau ynni cynaliadwy. Fodd bynnag, nid yw'r cwricwlwm yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o'u hawliau a'u cyfrifoldebau fel dinasyddion byd-eang yn ddigon da.

Addysgu: Digionol

Mae'r berthynas rhwng athrawon a staff cymorth a disgyblion yn gryf ac yn creu amgylchedd y mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus ynddo. Mae staff yn ennyn diddordeb disgyblion ac yn eu hysgogi i gyfranogi'r frwdfrydig mewn gweithgareddau. Pan fydd staff yn darparu adborth cadarnhaol, mae hyn yn annog disgyblion i wella eu gwaith ac maent yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Lle mae'r addysgu'n hynod effeithiol, er enghraifft mewn TGCh a chelf, mae'r staff yn creu amgylchedd lle mae'r disgyblion ar gyfer disgyblion yn arbennig o uchel. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio ystod briodol o adnoddau.

Mewn lleiafrif o wersi, nid yw'r dulliau a'r deunyddiau sy'n cael eu defnyddio yn briodol ar gyfer anghenion dysgu'r disgyblion. Mae rhediad gwersi yn rhy araf ac mae athrawon yn dibynnu gormod ar esboniadau maith.

Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd, ond mae ansawdd marcio ar draws yr ysgol yn anghyson. Nid yw sylwadau'n darparu cyngor clir i ddisgyblion ar sut i wella eu gwaith bob tro, ac nid yw llawer o athrawon yn gosod targedau penodol ar gyfer pynciau. Yng nghyfnodau allweddol 2 a 3, caiff y cynllun marcio a fabwysiadwyd yn ddiweddar ei ddefnyddio'n dda. Fodd bynnag, nid yw cyfleoedd ar gyfer hunanasesu ac asesu cymheiriaid wedi eu datblygu'n dda.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno system i osod targedau ac olrhain cynnydd unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mae aelodau'r tîm arweinyddiaeth yn monitro'r data hwn yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw asesiadau'n gywir bob tro, ac nid yw staff yn defnyddio eu gwybodaeth am ddisgyblion yn ddigon da bob amser i ddarparu gwaith heriol. Dim ond megis dechrau y mae rôl y cydlynwyr pwnc o ran olrhain cynnydd disgyblion. Felly, mae'n rhy gynnar i asesu'r effaith ar safonau.

Mae adroddiadau diwedd blwyddyn yn darparu gwybodaeth gyfyngedig am gyflawniad disgyblion ac nid ydynt yn dangos yn ddigon clir sut y gall disgyblion wella eu gwaith. Caiff rhieni gyfle priodol i ymateb i'r adroddiadau.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Digionol

Mae polisïau a darpariaeth i gynnal iechyd a lles disgyblion yn briodol ac yn helpu disgyblion ddatblygu dealltwriaeth o bwysigrwydd byw'n iach. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae profiadau dysgu'n hyrwyddo datblygiad personol disgyblion yn effeithiol, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cymryd rhan mewn gweithred addoli ar y cyd ddyddiol. Felly, nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofyniad statudol ar gyfer gweithred addoli ar y cyd ddyddiol.

Mae staff yn rheoli enghreifftiau o ymddygiad heriol yn dda. Mae targedau ymddygiad dyddiol disgyblion mewn cofnod trosglwyddo sy'n cael ei ddefnyddio i rannu gwybodaeth bwysig rhwng y staff addysg a'r staff gofal. Fodd bynnag, nid yw'r staff yn cynnwys disgyblion mewn adolygu eu cynnydd yn erbyn eu targedau personol yn gyson.

Mae'r ysgol yn datblygu strategaethau priodol i wella presenoldeb. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu effaith y rhain.

Mae amlygu anghenion dysgu ychwanegol yn drylwyr ac yn gynhwysfawr. Caiff athrawon gyngor ac arweiniad priodol ar sut i gynorthwyo disgyblion. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn monitro pa mor dda y mae staff yn rhoi'r strategaethau hyn ar waith mewn dosbarthiadau.

Mae'r ysgol yn darparu ystod briodol o raglenni ymyrraeth i gynorthwyo anghenion disgyblion. Mae cynlluniau addysg unigol yn hawdd i ddisgyblion eu deall a chaiff disgyblion gyfle i drafod eu targedau â'u gweithwyr allweddol. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn monitro'r cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud yn erbyn eu targedau.

Gall disgyblion fanteisio'n briodol ar hyfforddwr dysgu. Maent yn elwa ar y cymorth sy'n cael ei ddarparu wrth drosglwyddo i addysg bellach a'u cymuned leol. Gall disgyblion fanteisio'n dda ar ystod eang o wasanaethau cymorth gan gynnwys seicoleg addysg, therapi iaith a lleferydd, a gweithiwr ieuenctid.

Yn gyffredinol, mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ond mae rhai meysydd yn destun pryder.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Cymorth sydd wraidd ethos pennaf Ysgol Rhydygors. Mae'r ysgol yn hyrwyddo pwysigrwydd parch a gwerthfawrogi pobl o gefndiroedd gwahanol yn llwyddiannus. Ar draws yr ysgol, mae pwyslais ar gydraddoldeb. Mae staff yn herio unrhyw iaith amhriodol yn weithredol ac mewn modd sensitif.

Mae gan yr ysgol gynllun cydraddoldeb strategol cytûn. Fodd bynnag, mae'r cynllun hygyrchedd i bobl anabl wedi dyddio ac nid yw'n ddigon penodol ar gyfer anghenion yr ysgol.

Mae safon yr adeilad yn dda ac, yn gyffredinol, caiff manau mewnol eu cynnal a'u cadw'n dda. Lle mae'r addurniad mewnol o ansawdd gwael, mae hyn o ganlyniad i ddifrod dŵr diweddar. Mae'r cyfleusterau toiled yn addas ac yn bodloni anghenion nifer y disgyblion.

Mae arddangosiadau'n lliwgar, yn cyfoethogi'r amgylchedd ac, yn y rhan fwyaf o achosion, yn dathlu gwaith disgyblion yn dda. Mae digonedd o adnoddau, er bod angen diweddarau'r llyfrau darllen.

Mae gan yr ysgol dir helaeth sy'n cynnwys wyneb chwarae tarmac a chwrs ymosod bach. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn defnyddio'r mannau hyn yn dda. Fodd bynnag, mae rhannau o gaeau chwarae'r ysgol yn anhygyrch oherwydd draeniad gwael.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Anfoddhaol
--	-------------------

Arweinyddiaeth: Anfoddhaol

Dros y 18 mis diwethaf, bu newidiadau sylweddol o ran llywodraethu ac arweinyddiaeth yr ysgol, sydd wedi arwain at gyfnod o ansefydlogrwydd. Er bod gan arweinwyr gynlluniau priodol i symud yr ysgol ymlaen, ni wnaethant gadw cofnodion o gamau gweithredu cytûn na dwyn staff i gyfrif yn ddigon da. O ganlyniad, bu cynnydd o ran cyflawni blaenoriaethau strategol yn rhy araf. Fodd bynnag, yn ddiweddar, mae'r tîm arweinyddiaeth wedi cydweithio'n effeithiol ag ystod o asiantaethau allanol i'w cynorthwyo ar eu taith i wella. Mae hyn wedi cynnwys cynorthwyo a herio'r holl staff yn yr ysgol.

Yn ddiweddar, mae'r tîm arweinyddiaeth wedi sefydlu systemau rheoli data ysgol-gyfan ac, erbyn hyn, mae'n monitro cynnydd disgyblion unigol i olrhain a dadansoddi perfformiad disgyblion a dwyn staff i gyfrif. Dim ond megis dechrau cael ei roi ar waith y mae hyn, ac mae rhai bylchau o hyd yn y data sydd gan yr ysgol ar ddisgyblion cyn iddynt ymuno â'r ysgol. Mae'r ysgol wedi cryfhau ei fframwaith rheoli perfformiad ac mae gan yr holl staff addysgu dargedau blynyddol priodol sy'n cysylltu â gwella deilliannau disgyblion.

Nid yw'r ysgol wedi cael cymorth a her corff llywodraethol llawn weithredol. Penodwyd cadeirydd newydd y llywodraethwyr yn ddiweddar ac, am y tro cyntaf ers dros flwyddyn, mae cyflenwad llawn o lywodraethwyr. Mae cadeirydd y llywodraethwyr wedi cydweithio'n agos ag arweinwyr yr ysgol ar y gwaith o wella'r ysgol. Erbyn hyn, mae'r corff llywodraethol yn cynnwys ystod o unigolion â phrofiad ac arbenigedd perthnasol, ac mae'n deall ei rôl fel cyfaill beirniadol.

Gwella ansawdd: Anfoddhaol

Dim ond megis dechrau cael eu datblygu y mae systemau'r ysgol ar gyfer arfarnu ei pherfformiad, gan gynnwys defnyddio tystiolaeth uniongyrchol a chasglu barn ystod eang o randdeiliaid. Mae'r ysgol wedi dechrau rhoi arferion ar waith, er enghraifft arfarniadau o bynciau, sy'n cyfrannu at y broses hunanarfarnu. Fodd bynnag, mae diffyg data hanesyddol cyson wedi ei gwneud yn anodd asesu cynnydd disgyblion unigol. Nid yw'r ysgol yn defnyddio data'n ddigon da i fonitro ac arfarnu cynnydd nac i osod targedau ar gyfer gwella.

Mae arweinyddiaeth yr ysgol wedi dechrau defnyddio gweithdrefnau sicrhau ansawdd rheolaidd ac, yn ddiweddar, fe roddodd system olrhain data fasnachol ar waith. O ganlyniad, mae'r ysgol yn dechrau astudio tueddiadau a chynnydd dros amser er mwyn cydweddu'r cwricwlwm yn agosach ag anghenion disgyblion unigol. Mae'r ysgol yn dechrau defnyddio tystiolaeth uniongyrchol o ansawdd addysgu a dysgu trwy arsylwadau dosbarth rheolaidd, sy'n cael eu cynnal â chymorth yr awdurdod lleol.

Mae'r ysgol wedi llunio cynllun gwella defnyddiol sy'n amlinellu meysydd heriol i'w datblygu ac amserlenni. Darparwyd costau, lle bo hynny'n briodol. Fodd bynnag, nid yw'n glir bob tro sut mae targedau gwella'n cysylltu â'r blaenoriaethau a ddatganwyd.

Nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd tuag at fodloni'r argymhelliad o adroddiad arolygu diwethaf Estyn.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol wedi meithrin ystod eang o bartneriaethau effeithiol ag asiantaethau allanol a cholegau lleol, ac yn ardaloedd cartrefi'r disgyblion. Mae cysylltiad rheolaidd rhwng y colegau a'r ysgol. Mae'r trefniant hwn yn effeithiol o ran cynnal presenoldeb disgyblion mewn colegau ac o ran monitro'r cynnydd a wnânt.

Mae'r ysgol wedi meithrin cysylltiadau cryf â grwpiau yn y gymuned ac ysgolion eraill. Mae'r cysylltiadau hyn wedi ymestyn ystod y gweithgareddau a'r dewisiadau sydd ar gael i ddisgyblion, ac wedi darparu profiadau dysgu, cymorth ac adnoddau gwerthfawr i ddisgyblion. Mae'r partneriaethau hyn yn cael effaith sylweddol ar les disgyblion.

Mae gan Ysgol Rhydygors gysylltiadau da â'r uned cyfeirio disgyblion leol, ac maent yn rhannu cyfleusterau dysgu a staff. O ganlyniad, mae disgyblion yn elwa ar ystod eang o athrawon pwnc arbenigol. Mae gan wasanaeth cerdd peripatetig yr awdurdod lleol gysylltiad sefydledig â'r ysgol ac mae'n darparu addysgu unigol ac mewn dosbarthiadau bach ar gyfer y gitâr, drymiau ac allweddellau.

Trwy bartneriaeth â Gyrfa Cymru a'r gweithiwr ieuencid a ariennir ar y cyd, caiff disgyblion eu cynorthwyo a'u paratoi'n dda wrth iddynt symud ymlaen o'r ysgol.

Mae partneriaethau effeithiol â rhieni, a, thrwy gydweithio â'r gwasanaethau cymdeithasol, gall yr ysgol sicrhau bod pob rhiant a gofalwr yn mynychu adolygiadau a gweithdrefnau cynllunio ar gyfer ei blentyn/phlentyn ac yn cyfranogi ynddynt. Mae'r ysgol yn datblygu arferion gweithio ar y cyd yn effeithiol ac mae ymddiriedaeth a chyfathrebu da rhwng partneriaid.

Rheoli adnoddau: Digonol

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol ac mae staff yn brofiadol o ran bodloni prif anghenion addysgol arbennig y disgyblion. Fodd bynnag, ni chaiff y staff eu defnyddio'n ddigon da bob tro i fanteisio i'r eithaf ar eu hamser a'u harbenigedd.

Mae pob un o'r athrawon wedi eu cynnwys mewn arsylwadau uniongyrchol yn yr ystafell ddosbarth gan dîm arweinyddiaeth yr ysgol, ymgynghorwyr her yr awdurdod lleol ac uwch aelodau staff o ysgolion a gwasanaethau eraill. Mae staff wedi derbyn adborth ysgrifenedig manwl. Mae hyn wedi arwain at hyfforddiant priodol i fodloni anghenion yr ysgol ac unigolion.

Mae athrawon wedi ymweld ag ysgolion prif ffrwd i ddatblygu eu gwybodaeth am feysydd datblygu penodol, er enghraifft mewn cymedroli gwaith disgyblion. O ganlyniad, mae staff yn magu hyder wrth asesu gwaith disgyblion ac mae hyn yn gwella cywirdeb barnau athrawon.

Mae'r staff ynghlwm wrth nifer o rwydweithiau o arfer broffesiynol. Mae'r rhain yn cynnwys TGCh a Chymraeg. O ganlyniad, mae ansawdd darpariaeth yn y meysydd hyn wedi gwella, ynghyd â safonau disgyblion. Yn ogystal, mae'r ysgol yn cydweithio â'r awdurdod lleol i ddatblygu Rhydygors yn ysgol cyfathrebu hwylus. Mae disgyblion yr ysgol yn llysgenhadon ar gyfer y fenter hon.

Mae'r ysgol wedi targedu adnoddau'n briodol i wella perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae gan yr ysgol gynlluniau addas i leihau'r gwarged yn ei chyllideb.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd digonol yn Ysgol Rhydygors ac, o ganlyniad, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

Atodiad 1

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Holiadur Arbennig (Cyffredinol)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion er Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Don't know Ddim yn gwybod	
I feel safe in my school.	21	17 81%	4 19%	0 0%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		94%	2%	3%	
The school deals well with any bullying.	20	18 90%	2 10%	0 0%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		82%	8%	10%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	21	20 95%	1 5%	0 0%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio.
		92%	3%	5%	
The school teaches me how to keep healthy	21	20 95%	1 5%	0 0%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		92%	4%	4%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	21	19 90%	2 10%	0 0%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		92%	4%	3%	
I am doing well at school	21	18 86%	3 14%	0 0%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		93%	3%	3%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	21	20 95%	1 5%	0 0%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		97%	1%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	21	20 95%	1 5%	0 0%	Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		94%	2%	3%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	19	14 74%	5 26%	0 0%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		73%	14%	13%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	21	20 95%	1 5%	0 0%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		91%	5%	4%	
Other children behave well and I can get my work done.	20	15 75%	5 25%	0 0%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		83%	10%	7%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	21	18 86%	3 14%	0 0%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		86%	9%	5%	

Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion er Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	26	23 88%	3 12%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		76%	21%	1%	1%		
My child likes this school.	26	18 69%	8 31%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		77%	21%	0%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	26	22 85%	4 15%	0 0%	0 0%	0	Cafodd fy mhentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		78%	20%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	26	13 50%	11 42%	1 4%	0 0%	1	Mae fy mhentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		65%	31%	2%	0%		
Pupils behave well in school.	26	10 38%	11 42%	3 12%	0 0%	2	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		52%	35%	4%	0%		
Teaching is good.	26	20 77%	5 19%	1 4%	0 0%	0	Mae'r addysgu yn dda.
		74%	23%	1%	0%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	26	18 69%	8 31%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		66%	31%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	25	12 48%	5 20%	1 4%	1 4%	6	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		44%	31%	7%	2%		
Staff treat all children fairly and with respect.	26	22 85%	3 12%	1 4%	0 0%	0	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		73%	23%	1%	0%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	26	21 81%	3 12%	1 4%	0 0%	1	Caiff fy mhentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		68%	28%	1%	0%		
My child is safe at school.	26	20 77%	4 15%	1 4%	0 0%	1	Mae fy mhentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		74%	23%	1%	0%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs.	26	22 85%	3 12%	0 0%	0 0%	1	Mae fy mhentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		70%	26%	2%	1%		
I am kept well informed about my child's progress.	26	19 73%	7 27%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhentyn.
		67%	28%	3%	1%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	26	22 85%	3 12%	0 0%	0 0%	1	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		75%	20%	2%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	26	19 73%	7 27%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		55%	33%	3%	1%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	26	19 73%	6 23%	0 0%	0 0%	1	Mae'r ysgol yn helpu fy mhentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		63%	32%	1%	0%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	25	9 36%	9 36%	1 4%	1 4%	5	Mae fy mhentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		40%	29%	7%	2%		
There is a good range of activities including trips or visits.	26	21 81%	5 19%	0 0%	0 0%	0	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		69%	28%	1%	0%		
The school is well run.	26	19 73%	6 23%	0 0%	0 0%	1	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		74%	22%	1%	1%		

Atodiad 2

Y tîm arolygu

Huw Davies	Arolygydd Cofnodol
Michael Ridout	Arolygydd Tîm
Ann Dackevych	Arolygydd Tîm
Michelle Gosney	Arolygydd Cymheiriaid
Julie Price	Arolygydd Lleyg
Margaret Davies	Enwebai

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau ADY

ADDLI: anawsterau dysgu dwys a lluosog

ADHD: anhwylder gorfywiogrwydd diffyg canolbwyntio

ADP: anawsterau dysgu penodol, yn cynnwys dyslecsia

ADY: anghenion dysgu ychwanegol

ASA: Anhwylder y Sbectrwm Awtistig, sy'n cynnwys Syndrom Asperger

AYA: adnodd ychwanegol yr athro

AYECh: Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol

CY: Cod Ymarfer

NAS: nam amlsynhwyrdd

NC: nam ar y clyw

NG: nam ar y golwg